



PROSIECT

FFERM DANWYDD NEWYDD I WASANAETHU MAES AWYR PENARLÂG

CLEIENT

AIR BP

GWERTH Y CONTRACT

£1.0M

NOD Y PROSIECT

Dewiswyd Hollingsworth Ellery i ddarparu Fferm danwydd newydd am fod y cyfleuster blaenorol wedi symud i leoliad arall pan ddaeth Gorsaf Llinell Beluga newydd i AUK.

Am fod y cyfleuster ar y pryd wedi cael ei ddigomisiynu, roedd y Maes awyr yn rhedeg ei waith i gyd ar danciau tanwydd dros dro.

Roedd hyn yn achosi risg enfawr i'r busnes ac roedd yr awydd i redeg o gyfleuster parhaol yn rhoi pwysau mawr hefyd ar y gwaith adeiladu a'i raglen.

Dewiswyd Hollingsworth Ellery oherwydd y pecyn tendro cadarn oedd yn cynnwys rhaglen ddilyniant adeiladu solid, cynnig cadarn o safbwynt gosod Mecanyddol, Trydanol ac Offeryniaeth a hanes da o ddarparu prosiectau sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'r cleient gyda thîm Cyfleusterau AUK.

Roedd y contract yn cynnwys y gosodiad Mecanyddol a Thrydanol llawn, gan gynnwys yr holl offeryniaeth newydd.





Hollingsworth Group (UK) Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Y DULL

Y sialens fawr gyntaf oedd cael gwared â thwmpath enfawr o stoc wedi'i halogi o dir y fferm newydd. Cafodd hwn ei brofi, ei wahanu'n barthau a'i ddsbarthu i leihau'r gost i'r cleient o gael gwared ag o.

Roedd y safle gerllaw ochr y Maes awyr a drws nesaf i'r tŵr rheoli. Cytunwyd ar fesurau diogelwch gyda'r cleient i reoli'r mynediad i'r safle ac i osgoi unrhyw waith ar ochr y maes awyr.

Roedd y prosiect yn cynnwys llawer iawn o waith peirianeg sifil a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Hollingsworth Brothers.

Ategwyd canran fawr o'r tanciau storio, pypiau a manau cerdded o waith dur gyda rhai newydd. Unwaith y cawsent eu gosod cafwyd cyfnod o brofi ac amnewid hen gylchedau nes bo'r Fferm danwydd yn weithredol unwaith eto.

Yna cychwynnodd HE ar y cam comisiynu gyda gweithrediadau North Air oedd yn cynnwys glanhau tanciau a rhedeg y system gyfan.

Y CANLYNIADAU

Trosglwyddwyd y prosiect i'r cleient wythnos yn gynnar er mawr bleser i'r cleient.

Ni chafwyd unrhyw ddamweiniau na digwyddiadau di-groeso yn ystod y gwaith adeiladu.

Derbyniodd rheolwyr y prosiect ganmoliaeth fawr gan Air BP ac AUK. Cytunwyd ar y cyfrif terfynol pan gwblhawyd y gwaith yn ymarferol

CRYNODEB

Dywedodd Darren Bailey Air BP PM y byddai'n hoffi parhau i ddatblygu'r berthynas broffesiynol gyda Hollingsworth Ellery oherwydd safon y saerniaeth, y ddarpariaeth oedd yn cyfateb â'r rhaglen a'u hagwedd tuag at reolaeth adeiladu.